

Cyfeirnod: Y Gyfraith a Moeseg

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2020

Digwyddiadau'r Gyfnewidfa Arfer Da – Cylch Gorchwyl

Cefndir

- 1 Sefydlodd Deddf Archwilio (Cymru) 2013 ('y Ddeddf') y Swyddfa Archwilio fel corff corfforaethol sy'n gyfrifol am:
 - Ddarparu adnoddau ar gyfer ymarfer swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol), a
 - Monitro ymarfer swyddogaethau'r Archwilydd Cyffredinol.
- 2 O dan adran 19 y Ddeddf, gall y Swyddfa Archwilio ddarparu gwasanaethau gweinyddol, technegol neu broffesiynol i gyrff cyhoeddus eraill drwy gytundeb hefyd.
- 3 Mae'r Gyfnewidfa Arfer Da (GPX) yn un o adrannau Swyddfa Archwilio Cymru sy'n darparu seminarau, gweminarau a digwyddiadau dysgu ar y cyd ('digwyddiad(au) GPX')) i gyrff a archwilir trwy gytundeb o dan adran 19 o'r Ddeddf.

Presenoldeb a Chytundeb

- 4 Mae staff cyrff a archwilir, ar ran y cyrff sy'n eu cyflogi, yn cytuno i dderbyn gwasanaethau a ddarperir gan y Swyddfa Archwilio drwy gofrestru i fynychu digwyddiad GPX, sy'n cyfeirio at y Cylch Gorchwyl hwn. Wrth gofrestru ar gyfer digwyddiad, mae staff yn cadarnhau eu bod wedi'u hawdurdodi i gytuno i ddarparu gwasanaeth ar ran eu cyflogwr a bod ganddynt ganiatâd i fynychu.
- 5 Mae croeso i staff sefydliadau trydydd sector, elusennau a mentrau cymdeithasol neu gymdeithasau a phobl eraill sydd â diddordeb fynychu digwyddiadau GPX hefyd os oes digon o le.
- 6 Fel arfer bydd digwyddiadau GPX am ddim neu am gost isel iawn i gynrychiolwyr.
- 7 Rydym yn egluro sut rydym yn trafod data personol a ddarperir gan gynrychiolwyr a chyfranogwyr mewn hysbysiad prosesu teg sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Diben Digwyddiadau GPX

- 8 Mae'r GPX yn cynllunio digwyddiadau i:
 - Hwyluso rhannu enghreifftiau ac astudiaethau achos o arfer da;

- Datblygu a chymhwyso dysgu o enghreifftiau o arfer da;
- Hwyluso datblygiad rhwydweithio a chydweithio cefnogol ledled cyrff sector cyhoeddus; a
- Helpu cyrff cyhoeddus i ystyried sut i wella arferion a sicrhau newid

9 Gall digwyddiadau GPX fod ar ffurf¹

- **Seminar Dysgu ar y Cyd**, sy'n cyfuno cyflwyniadau gan siaradwyr allweddol a gweithdai ymarferol wedi'u hwyluso. Fel arfer, bydd y seminarau'n cael eu cynnal mewn dau leoliad, un yn y De ac un yn y Gogledd.
- **Gweminar**, sy'n cynnwys trafodaeth banel wedi'i hwyluso a phwyso a mesur pwnc penodol gyda chyfle am gyfraniadau a chwestiynau gan y gynulleidfa ar-lein.
- **Digwyddiad Swyddfa Archwilio Cymru**, fel cynhadledd ar gyfer niferoedd uwch o gynrychiolwyr, gyda chyflwyniadau gan siaradwyr allweddol a gweithdai a thrafodaethau wedi'u hwyluso.

Trefnu Digwyddiadau

- 10 Mae staff GPX yn trefnu a hwyluso digwyddiadau GPX ar ran Swyddfa Archwilio Cymru, a all ddarparu Digwyddiadau GPX yn llwyr ei hun neu mewn cydweithrediad (neu ar y cyd) â chyrrff cyhoeddus eraill a/neu sefydliadau sector cyhoeddus.
- 11 Efallai y byddwn yn ymgynghori â chyfranogwyr allanol wrth gwmpasu a datblygu digwyddiadau, ac efallai y byddwn yn eu gwahodd i siarad ac ateb cwestiynau mewn digwyddiad.
- 12 Mae'r Gyfnewidfa'n rhoi cyhoeddusrwydd i'w digwyddiadau ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru, trwy ei blog a'i ffrwd Twitter i gyrff a archwilir y gall eu staff gymryd rhan, awgrymu syniadau a chyfrannu at ddigwyddiadau. Mae'r GPX yn anfon nodyn dyddiadur at gysylltiadau allweddol gyda manylion digwyddiadau newydd.

Cyhoeddusrwydd a'r Cyfryngau Cymdeithasol

- 13 Mae gan y GPX flog a chyfrif Twitter a bydd yn ysgrifennu am ddigwyddiadau GPX cyn y digwyddiad er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt a denu diddordeb. Efallai y byddwn yn gwahodd cyfranogwyr i ysgrifennu ar gyfer blog GPX hefyd.

¹ Ers mis Mawrth 2020, mae ein digwyddiadau wedi'u cynnal yn rhithwir drwy fideo gynadleda yn sgil cyfyngiadau a chanllawiau Covid-19 (gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd Digwyddiadau GPX), a byddwn yn parhau i wneud hyn yn y dyfodol rhagweladwy.

- 14 Yn ystod digwyddiadau, mae tîm GPX yn annog cynrychiolwyr a chynulleidfaoedd ar-lein i drydar cwestiynau, safbwyntiau a negeseuon allweddol ac efallai y bydd yn rhannu'r rhain drwy gyfrif Twitter GPX.